# Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Ionawr 2025

Papur Technegol Cefndir Rhif 7

# Cynllun Adnau

## Gwastraff





www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021 i 2036

## Papur Technegol Cefndirol Rhif 7

## Gwastraff

## Ionawr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol ag uchelgeisiau cenedlaethol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i symud tuag at economi fwy cylchol ac arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy. Bydd y papur cefndir hwn yn trafod y fframwaith polisi ar gyfer rheoli gwastraff. Bydd yn egluro anghenion defnydd tir sy'n gysylltiedig â gwastraff Caerdydd, a bydd yn dangos sut y gellir diwallu'r anghenion hyn o fewn cyfnod y cynllun.

1.2 Mae symud tuag at economi gylchol yn newid mawr yn y dulliau a'r prosesau ar gyfer trin gwastraff yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd cyfleusterau rheoli gwastraff yn y dyfodol yn defnyddio technoleg wahanol gyda gwahanol ofynion defnydd tir.

1.3 Mae cynllunio rheoli gwastraff yn digwydd yn rhanbarthol yng Nghymru drwy Gynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, adroddiadau monitro gwastraff ar y cyd, a chaffael cyfleusterau gwastraff mawr newydd drwy gonsortia rhanbarthol. Un o oblygiadau mawr y dull rhanbarthol o reoli gwastraff yw y gellir bodloni gofynion awdurdod lleol unigol drwy leoli cyfleuster o fewn ardal awdurdod lleol arall, neu drwy gyfuniad o gyfleusterau ledled y rhanbarth.

1.4 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fwrw targedau cenedlaethol uchelgeisiol o ran lleihau gwastraff, effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff. Bydd y CCA hwn yn nodi sut y bydd polisïau sy'n gysylltiedig â gwastraff y CDLl Newydd yn cyfrannu tuag at ddarparu rhwydwaith cynaliadwy ac integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff.

# 2. Cyd-destun Polisi

2.1 Dyma’r Cyfarwyddebau Ewropeaidd mwyaf perthnasol:

- **Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff** yw Fframwaith cyfreithiol yr UE ar gyfer rheoli gwastraff a hon sy’n gosod yr egwyddorion a'r targedau rheoli gwastraff sylfaenol yr UE. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu a chynnal rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff.
- Nod y **Gyfarwyddeb Tirlenwi** yw atal neu leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd tirlenwi gwastraff, drwy gyflwyno gofynion technegol llym ar gyfer gwastraff a gosod targedau ar gyfer lleihau gwastraff trefol bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

2.2 Dyma'r ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol mwyaf perthnasol:

- Nod **Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2014**) yw cyflwyno fframwaith cynllunio defnydd tir cynhwysfawr, integredig a chynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae'n nodi'r gofyniad am gydlynu rhanbarthol ar faterion gwastraff.

- **Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Dogfen Strategaeth Wastraff Gyffredinol Cymru (2010)** yw fframwaith rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau hirdymor Cymru tan 2050. Mae'n nodi'r targedau allweddol canlynol:
  - Ailgylchu o leiaf 70% ym mhob sector erbyn 2025;
  - Dim gwastraff erbyn 2050 lle mae'r holl gynhyrchion a gwasanaethau yn cael eu dylunio a'u darparu gydag atal gwastraff mewn golwg.
- Mae **Cynllun Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd (2012)** yn amlinellu fframwaith rheoli gwastraff sy'n cynnig y ffyrdd gorau o fodloni anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hyd at 2050. Mae'n nodi y dylai fod lleihad mewn opsiynau taflu ac adfer gwastraff, gyda mwy o ffocws ar ddefnyddio dulliau gwahanu yn y safle ar raddfa uwch ac wedyn ailbrosesu, yn ogystal â pharatoi ar gyfer ailddefnyddio ac atal. Dylai Cynlluniau Datblygu ddangos sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.
- Mae **Mwy Nag Ailgylchu (2021)** yn strategaeth gyfredol ar gyfer cyflawni targed Llywodraeth Cymru o wastraff sero net erbyn 2025, gan ddisodli'r targedau a nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae'n cynnwys targedau newydd, yn mynd i'r afael â heriau i gyrraedd y targedau ac yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu a fydd yn arwain at symud tuag at economi gylchol.
- Mae **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Chwefror 2024)** yn amlinellu polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy yn cydnabod yr angen i atal gwastraff a gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol, a'r angen am seilwaith priodol i hyrwyddo rheoli gwastraff yn gynaliadwy. O fewn y bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus mae canllawiau ar wneud y defnydd gorau o adnoddau materol a hyrwyddo'r economi gylchol. Mae'r canllawiau cynllunio gwastraff sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru yn nodi:
  - Yr angen am yr egwyddor o symud tuag at economi gylchol ac atal gwastraff i fod yn sail i benderfyniadau dylunio, dewis safleoedd a datblygu;
  - Rôl yr hierarchaeth wastraff fel sail ar gyfer ystyried cynigion rheoli gwastraff;
  - Darparu seilwaith gwastraff eang ac amrywiol;
  - Dylid nodi lleoliadau addas ar gyfer datblygu rheoli gwastraff mewn cynlluniau datblygiadau, a'r meini prawf i benderfynu ar geisiadau o'r fath;
  - Dylid ymgorffori cyfleusterau digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu gwastraff wrth ddylunio a chynllun datblygu.

# 3. Perthynas â chynlluniau a chyhoeddiadau eraill

3.1 Mae Caerdydd yn aelod cyfansoddol o Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (SEWRWG), trefniant gwirfoddol ar y cyd rhwng 11 awdurdod cynllunio lleol. Cynhyrchodd y SEWRWG **Gynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru**. Bu

hwn yn destun **Adolygiad Cyntaf** a gymeradwywyd gan awdurdodau cyfansoddol SEWRWG yn 2008.

3.2 Yn unol â'r canllawiau a gynhwysir yn Nodyn Cyngor Technegol 21, mae trefniadau monitro gwastraff rhanbarthol ar y cyd ar waith. Paratowyd trydydd **Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff De-ddwyrain Cymru** yn 2020. Daw hwn i'r casgliad nad oes anghenion pellach am gapasiti tirlenwi yn rhanbarth y De-ddwyrain ac y dylid asesu unrhyw gynnig pellach ar gyfer trin gwastraff gweddilliol pellach yn ofalus er mwyn sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain at or-ddarpariaeth.

3.3 Cyhoeddodd y Cyngor **Strategaeth Ailgylchu Caerdydd 2022-2025** sy'n ymrwymiad i gyflawni targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru ac yn nodi bwriad y Cyngor i symud 'y tu hwnt i ailgylchu' drwy gadw adnoddau mewn defnydd ac osgoi gwastraff. Mae'n canolbwyntio ar dair ymyrraeth:

- Gwella perfformiad ailgylchu'r gwasanaeth gwastraff masnachol;
- Ehangu'r gwasanaeth ailgylchu preswyl i gynnwys ffrydiau gwahanu newydd;
- Dargyfeirio deunyddiau ailgylchadwy o'r ffrwd wastraff weddilliol.

Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn rheoli gwastraff y ddinas yn fwy effeithiol er mwyn helpu i gyrraedd nodau ein strategaeth **Un Blaned** a chefnogi'r broses o ddod yn garbon sero-net erbyn 2030.

# 4. Seilwaith Gwastraff presennol yng Nghaerdydd

4.1 Ers mabwysiadu'r CDLl 2006-2026 mae Prosiect Gwyrdd a Phrosiect Trin Gwastraff Organig Caerdydd wedi darparu cyfleusterau gwastraff sylweddol sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, ond sy'n gwasanaethu anghenion rhanbarthol ehangach. Mae'r cyfleusterau bellach yn weithredol.

4.2 Mae gan y Cyngor rwydwaith o gyfleusterau rheoli gwastraff, prosesu a gwaredu ledled y Ddinas. Mae hyn yn cynnwys:

- Ffatri treulio anaerobig sy'n prosesu gwastraff bwyd;
- Cyfleuster Adfer Deunyddiau lle mae deunyddiau ailgylchadwy sych yn cael eu gwahanu, eu pecynnu a'u symud ymlaen i broseswyr i'w hailgylchu;
- Cyfleuster compostio lle mae gwastraff gardd yn cael ei gompostio mewn proses rhesgompostio agored;
- Cyfleuster Adfer Ynni lle mae gwastraff na ellir ei ailgylchu'n cael ei ddefnyddio fel tanwydd ar gyfer adfer ynni.
- Dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau)

4.3 Mae yna hefyd lawer o gyfleusterau llai ledled y ddinas sy'n cael eu cynnal yn bennaf gan weithredwyr preifat, sy'n cyfrannu at fodloni gofynion rheoli gwastraff a gwaredu Caerdydd.

# 5. Gofynion Rheoli Gwastraff y Dyfodol

5.1 O ystyried y rhwydwaith rheoli gwastraff presennol sydd ar waith a'r cyngor sydd wedi'i gynnwys yn y Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, ni ragwelir y bydd angen unrhyw ddatblygiadau rheoli gwastraff sylweddol ar raddfa a fyddai'n gwasanaethu anghenion rhanbarthol yng Nghaerdydd yn ystod cyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai newidiadau i bolisi cenedlaethol, neu newidiadau mewn technoleg rheoli gwastraff, arwain at yr angen am ddatblygiadau gwastraff sylweddol.

5.2 Mae'n debygol y bydd angen cyfleusterau rheoli gwastraff llai yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd y datblygiadau hyn yn cael eu cyfeirio at dir diwydiannol cyffredinol presennol a arfaethedig 'B2' yn unol â pholisi MW1. Ni fernir bod angen dyrannu unrhyw dir penodol at ddibenion rheoli gwastraff yn y cynllun, o ystyried gofynion amrywiol datblygiadau gwastraff posibl. Ystyrir bod digon o dir presennol ac arfaethedig at ddibenion diwydiannol a ddiogelir o fewn y cynllun a allai ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion gwastraff yn y dyfodol yn ddigonol.

5.3 Efallai y bydd yr uchelgais i symud i economi gylchol hefyd yn golygu bod angen datblygiadau eraill nad ydynt yn 'rheoli gwastraff' nodweddiadol, ond a fydd yn cefnogi lleihau gwastraff, neu ailddefnyddio, ail-bwrpasu neu ailgylchu deunyddiau a fyddai fel arall wedi cael eu hystyried yn wastraff. Gellid defnyddio'r defnyddiau diwydiannol hyn hefyd o fewn tir 'B2' presennol ac arfaethedig.